Cynllun Strategol 2021 - 2030

1. Perchnogi a rheoli darnau o dir yng Nghymru, gan gynnwys o leiaf un ardal fawr.

1.1. *Mae Coetir Anian, yn canolbwyntio ar ardal yng ngogledd Mynyddoedd Cambria, i'r de a'r dwyrain o aber Dyfi. Ein nod yma yw meddu ar tua 1,200 hectar o dir, a gweithio mewn partneriaeth â pherchnogion tir cyfagos fel Llywodraeth Cymru tuag at nod tymor hir o greu 3,000 hectar o dir gwyllt.*

Statws cyfredol:

Prydles 125 mlynedd ar Fwlch Corog, safle 142 hectar.

Cynlluniau:

Creu cyfleoedd i gaffael tir cyfagos i Fwlch Corog. Cynyddu ymdrechion codi arian ar gyfer prynu tir yn dilyn cynnig llwyddiannus.
Nid yw'n flaenoriaeth ar hyn o bryd, bydd hwn yn ymdrech ar wahân i'r flaenoriaeth gyfredol o ddatblygu ac ariannu prosiect ar eiddo presennol o 2022.
Fodd bynnag, mae'r amseriad ar gyfer hyn yn ffafriol, gyda degawd y Cenhedloedd Unedig o adfer ecosystemau a mwy o awydd gan y cyhoedd i adfer natur.

1.2. *Cychwyn neu gefnogi prosiectau lleol mewn rhannau eraill o Gymru pan fydd cyfleoedd yn codi. Yr ardaloedd posib yw: Rhinogydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri; Sir Benfro; De Bannau Brycheiniog / Pen y Cymoedd.*

Statws cyfredol:

Dim

Cynlluniau:

Parhau i gyfathrebu ag unigolion a grwpiau o rannau eraill o Gymru sy'n cysylltu â ni gyda'u syniadau.

1.3. *Dilyn cyfleoedd i gaffael ardaloedd bach o dir gwyllt neu dir a allai fod yn wyllt yn agos at ganolfannau trefol fel safleoedd posib ar gyfer prosiectau, gan weithio'n agos gyda chymunedau lleol.*

Statws cyfredol:

Dim

Cynlluniau:

Ail-gychwyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol Skellys, safle 1.5 hectar ar gyrion Aberystwyth.